GUIDE DOGS

Cymru

Prosiect STEM

# Dinasoedd cynhwysol – ble gall pawb fynd o gwmpas yn ddiogel



Prosiect STEM

# Gall fod yn anodd i unrhyw un fordwyo trefi a dinasoedd.

Hyd yn oed os ydych chi'n adnabod canol eich tref leol a'ch bod yn gallu gweld, y mae weithiau'n anodd gweithio eich ffordd drwy'r torfeydd, croesi ffyrdd yn ddiogel neu ffeindio pa blatfform y mae eich trên yn gadael ohono. Mae'r problemau hyn yn llawer anoddach i bobl sydd â nam golwg. Tra bo ci tywys yn helpu ei berchennog i groesi'r ffordd yn ddiogel ac osgoi rhwystrau, mae angen i'r person â nam ar ei olwg wybod i ble mae'n mynd ac i ffeindio ei ffordd o gwmpas neu fordwyo'r gwagle o'i gwmpas.

Mae llawer o berchnogion cŵn tywys eisoes yn defnyddio technoleg i'w helpu nhw i wneud hyn ar ffurf dyfeisiadau GPS fel mapiau Google ac apiau mordwyo eraill ar eu ffonau clyfar, ond maen nhw'n gyfyngedig ac nid ydyn nhw'n helpu â phroblemau bob dydd y mae perchnogion cŵn tywys yn eu hwynebu.

**Mae'r problemau hyn yn cynnwys:**

- Ffeindio'r bws cywir a gwybod ble mae'ch arosfan bws
- Gwybod ble mae'r siopau
- Prynu a thalu am eitemau
- Ffeindio lifft ac escaladur/grisiau symudol
- Gwybod pa escaladur sy'n mynd i fyny neu i lawr
- Arwynebau a rennir - ble mae'r cwrb a'r palmant ar yr un lefel sy'n ei wneud yn anodd gwybod a ydych yn y ffordd ai peidio

Mae'r gallu i ddatrys y problemau hyn fel arfer yn golygu gofyn am help, ond byddai dinas gynhwysol yn golygu fod pobl ag anableddau yn gallu defnyddio'r cyfleusterau'n annibynnol.



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

## Beth yw dinas gynhwysol neu ‘glyfar’?

Mae dinas gynhwysol wedi ei datblygu i fod yn gynhwysol o’r holl ddinasyddion, ystyried anghenion pobl o bob cefndir yn ogystal ag aml ffactorau gofodol, cymdeithasol ac economaidd sy’n sicrhau cyfle i bawb. Gellir hefyd ddisgrifio’r dinasoedd hyn fel rhai ‘clyfar’. Yn 2013 nododd yr Adran Busnes ac Arloesedd a Sgiliau y dylai “Dinas Glyfar” alluogi pob dinesydd i ymgysylltu â’r holl wasanaethau a gynigir, y rhai cyhoeddus yn ogystal â’r rhai preifat, mewn ffordd sy’n gweddu ei anghenion/ ei hanghenion orau.

Dros y blynyddoedd diweddar mae cynllunio trefol yn y DU wedi symud tuag at strydoedd ag arwynebau a rennir gan mai’r dybiaeth yw eu bod yn fwy deniadol a chyfeillgar i bobl. Digwydda hyn pan gaiff lefelau’r ffordd a’r pafin eu hadeiladu i’r un lefel gan gael gwared ar y cwrb fel y gall ceir, bysiau a cherddwyr rannu’r un arwyneb. Mewn rhai achosion, caiff croesfannau a reolir (croesfannau pelican) hefyd eu gwaredu.

Mae strydoedd ag arwyneb a rennir yn beryglus i bobl â nam ar eu golwg, achos maen nhw’n dibynnu ar bresenoldeb y cwrb i wybod eu bod ar balmant ac nid yn y ffordd, a chaiff cŵn tywys eu hyfforddi i ddod o hyd i gwrb, felly mae’r gwagleoedd hyn yn ei gwneud yn anoddach i ganfod eu ffordd o gwmpas/i fordwyo.

Bu elusen Cŵn Tywys yn ymgyrchu yn erbyn y defnydd o strydoedd ag arwyneb a rennir fel rhan o’n hymgyrch Streets Ahead, a gefnogir gan sefydliadau sy’n cynrychioli pobl anabl ar draws y sector anabl, pobl hŷn a grwpiau eraill.




**Mae’r gwagleoedd hyn yn enghraifft o ddinas yn peidio â bod yn gynhwysol ac mewn gwirionedd yn gwneud pethau’n anoddach i bobl â nam ar eu golwg ac anableddau eraill.**

**www.guidedogs.org.uk**

Mewn rhai achosion ceir atebion syml a fydd yn helpu pawb i fynd o gwmpas yn haws. Un o'r atebion hyn yw defnyddio bws. Bysiau yw'r rhain sy'n defnyddio cyhoeddiadau wedi eu recordio i adael i deithwyr wybod beth yw enw'r stop nesaf. Mae hyn yn helpu pobl â nam ar eu golwg pan fyddan nhw'n mynd oddi ar y bws. Ymhlith atebion eraill sy'n seiliedig ar sain ceir lifftiau sy'n cyhoeddi pan maen nhw'n mynd i fyny neu i lawr ac ar ba lawr maen nhw'n aros arno. Mae'r rhain yn hawdd eu gosod ond yn anffodus mae gennym bell ffordd i fynd i sicrhau fod bysiau a lifftiau sy'n siarad ym mhob tref a dinas.




**I ddarganfod rhagor am ymgyrch Cŵn Tywys yn Cymryd Bysiau ewch i www.guidedogs.org.uk/how-you-can-help/campaigning/talking-buses**

## Siopa

Ar ôl lleoli'r siop, gall fod yn heriol iawn i'r person sy'n colli golwg ddod o hyd i'r rhan gywir o'r siop yn hyderus, er mwyn dewis y nwyddau cywir sydd eu hangen arno, cyn dod o hyd i'r tils i dalu amdanynt. Mae datblygiadau diweddar mewn technoleg ddigyswllt a chlyfar wedi golygu fod talu ar gyfer siopa yn llawer haws ac mae llawer o berchnogion cŵn tywys yn talu'n ddigyswllt yn hytrach na defnyddio Chip and Pin neu'n talu gydag oriawr glyfar neu ffôn clyfar. Mae arian wedi dyfod i fod yn fwy hygyrch yn ddiweddar gyda braille yn cael ei ychwanegu ar y papur £10 newydd **www.rnib.org.uk/rnibconnect/new-10-pound-note**

Ceir llawer o apiau anhygoel sydd hefyd yn gallu helpu gyda siopa, yn cynnwys Tap Tap See sy'n gwneud y mwyaf o gamera ffôn clyfar ac sy'n gallu disgrifio'r hyn mae'r camera yn edrych arno e.e. 'siwmper goch'. I ddarganfod rhagor ewch i **taptapseeapp.com**



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

## Mynd o gwmpas y lle

Mae llawer o berchnogion cŵn tywys yn defnyddio GPS neu Apiau i'w helpu i ganfod eu ffordd o gwmpas. Ymhlith y rhai poblogaidd mae Google Maps, Blind Square, Apple maps ac apiau teithio fel Moovit. Mae dyfeisiadau Apple yn arbennig o hygyrch gyda meddalwedd hygyrchedd wedi ei adeiladu i mewn yn cynnwys adnabod llais a darllenwyr sain sy'n disgrifio a darllen sgrin sy'n ei wneud yn hawdd cael mynediad at dechnoleg glyfar a'r rhyngrwyd wrth symud o gwmpas. Wrth ddefnyddio'r dyfeisiadau hyn mae'n ofynnol bod perchennog y ci tywys yn hyderus â thechnoleg; hefyd maen nhw'n gallu bod yn ddrud i'w prynu. Mae'r dechnoleg hon yn dibynnu ar ddefnyddio sain i helpu pobl wybod i ble i fynd. Mae Cŵn Tywys wedi bod yn gweithio gyda Microsoft, Future Cities Catapult a sefydliadau eraill i ddatblygu technoleg fordwyo sy'n seiliedig ar sain i helpu i ddatgloi dinasoedd a'u gwneud yn fwy hygyrch i bawb. I ddarganfod rhagor am hyn ewch i **www.guidedogs.org.uk/services-we-provide/technology** a gwylio'r fideo yma **www.youtube.com/watch?v=RLjFKZChtz4&feature=youtu.be**




**Tasg**

## Cysylltedd

Er mwyn i'r holl ddyfeisiadau hyn weithio mae angen i ni deimlo'n hyderus y bydd cysylltedd ardderchog gan ein dinasoedd. Archwiliwch y cysyniad o 'begynau dinas glyfar/smart city beacons' a phwysigrwydd Bluetooth i sicrhau fod technoleg yn gallu gweithio'n llyfn ledled amgylchedd dinas glyfar.

**Pa mor bwysig yw cysylltedd yn eich ateb neu ddatrysiad technegol? Sut fyddech chi'n defnyddio begwn/beacon i gefnogi eich technoleg?**

## www.guidedogs.org.uk